# Ysgogiad magnetig trawsgreuanol ailadroddus ar gyfer iselder

Rhagfyr 2015

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Mae ysgogiad magnetig trawsgreuanol ar gyfer iselder yn ddigon diogel ac yn gweithio’n ddigon da i'w ddefnyddio yn y GIG, er bod y buddiannau yn amrywio i wahanol bobl.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio'r hyn y mae cael y driniaeth hon yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl â chi. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Dylai hyn oll ddigwydd cyn i chi benderfynu a ydych am gael y driniaeth hon ai peidio.

## Y cyflwr

Mae iselder yn gyffredin. Mae iselder yn achosi teimladau o dristwch, anobaith ac euogrwydd neu hunan−barch isel, yn ogystal â blinder, diffyg diddordeb mewn bywyd ac anhawster canolbwyntio. Efallai na fydd pobl sydd ag iselder difrifol yn gallu bwyta neu gysgu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, gallent ddod yn gwbl encilgar ac efallai y byddant yn meddwl am ladd eu hunain. Gall y cyflwr bara rhwng wythnosau a blynyddoedd a gall ddychwelyd.

Mae triniaethau ar gyfer iselder yn cynnwys therapïau seicolegol (siarad) a meddyginiaethau gwrth-iselder. Yn achos iselder difrifol nad yw wedi gwella gyda thriniaethau eraill, defnyddir therapi electroddirdynnol (ECT) weithiau. Defnyddir ECT gyda'r claf o dan anesthetig cyffredinol. Mae'n golygu anfon cerrynt trydanol drwy'r ymennydd sydd mor gryf fel ei fod yn achosi i'r claf gael ffitiau ac weithiau golli ei gof.

Mae NICE wedi ystyried defnyddio ysgogiad magnetig trawsgreuanol fel opsiwn triniaeth arall sy'n fwy diogel ac nid oes angen ei wneud o dan

anesthetig. Gall NHS Choices (www.nhs.uk) a gwybodaeth NICE i'r cyhoedd am iselder fod yn fan da i gael mwy o wybodaeth.

## Y driniaeth

Nid oes angen i'r driniaeth hon gael ei chynnal o dan anesthetig cyffredinol a gallwch adael yr ysbyty yr un diwrnod.

Caiff coil electromagnetig ei ddal yn erbyn y pen, sy'n creu cerrynt trydanol mewn rhannau penodol o'r ymennydd. Mae'r driniaeth yn golygu sesiynau dyddiol o tua 30 munud, yn para am ddwy i chwe wythnos.

## Buddiannau a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth, penderfynodd fod ysgogiad magnetig trawsgreuanol ar gyfer iselder yn ddigon diogel a'i fod yn gweithio’n ddigon da i'w ddefnyddio yn y GIG. Edrychodd NICE ar saith astudiaeth yn cynnwys dros 6000 o gleifion.

Yn gyffredinol, dangosodd yr astudiaethau fod y driniaeth yn gwella symptomau iselder ac ansawdd bywyd. Mewn rhai achosion, gallai cleifion roi'r gorau i gymryd cyffuriau gwrth-iselder.

Dangosodd yr astudiaethau fod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r driniaeth yn cynnwys y canlynol:

- un trawiad rhannol mewn un claf
- un episod manig mewn un claf
- problemau cysgu mewn un claf
- poen yn y cymalau mewn un claf
- ychydig o boen, anesmwythder yng nghroen y pen a gwingo yn yr wyneb mewn nifer fach o gleifion
- teimlo'n gysglyd mewn 12 claf
- y croen yn cochi mewn chwe chlaf.

Dywedodd arbenigwyr wrth NICE am y sgil-effeithiau canlynol a gafodd eu cleifion ar ôl y driniaeth hefyd: anesmwythder, gwingo amhleserus, dryswch a phroblemau gyda'r cof dros dro, a cholli clyw dros dro.

Os hoffech wybod rhagor am yr astudiaethau, gweler y canllaw. Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

## Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt o ddigwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae canllawiau ymyriadau NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN: 978-1-4731-1736-5